

Cofnodion cyfarfod Mai 3ydd, 2018

Presennol: Y Maer Sharon Evans, Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Dilys Evans, Rhys Evans, Ivora Jones, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, John Caradog Williams

Lis Puw (Clerc).

Ymddiheuriadau: Edith Roberts, Carol Rowlands, Cynghorydd Dilwyn Morgan

1. Diolchodd Sharon Wyn Evans am yr anrhydedd o gael ei hethol i'r swydd o Faer Y Bala a thalodd deyrnged ddiffuant i'r cyn-Faer, y Parchedig Dorothei Evans.
2. **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Sharon Wyn Evans ym mater trwydded (eitem 9 isod).
4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ebrill 5ed, 2018.
5. **Materion y Clerc:** Nid oedd cais am etholiad wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd ar gyfer y sedd wag ar y Cyngor; y cam nesaf yw hysbysebu fod y sedd yn wag ac wedyn bydd y Cyngor yn cyfethol aelod.

Derbyniwyd adroddiad Mai 2016 a gomisiynwyd gan Gyngor Gwynedd ar gyflwr cerflun Tom Ellis ar Y Stryd Fawr. Mae swyddogion Cyngor Gwynedd wedi datgan eu bod yn fodlon nad oes risg lechyd a Diogelwch. Mae gwaith glanhau yn y gorffennol wedi gwneud drwg i'r deunydd, ond nid yw'n hysbys pwy oedd yn gyfrifol am ei lanhau'r adeg honno. Cytunwyd i anfon at Barc Cenedlaethol Eryri am gyngor pellach ar y mater.
6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Cynghorydd Sir a soniodd am ei fwriad i lanhau'r lloches bws tu allan i'r Bull. Mae trefniadau'n bwrw ymlaen i goffhau'r pobl a laddwyd mewn awyren ar Arennig Fawr. Cyhoeddodd fod y broblem parcio wrth y safle ailgylchu wedi ei datrys. Mae'n parhau i weithio i gael cyfyngiad 20mya wth Ysgol y Berwyn.
7. **Toiledau Cyhoeddus:** Derbyniwyd cais am £8,000 o bunnau i'w cadw ar agor. Gan nad yw'r gwaith uwchraddio wedi cymryd lle, cytunwyd i aros tan y cyfarfod nesaf am arweiniad y Cynghorydd Dilwyn Morgan ar y mater.
8. **Lloches bws:** Mae manylion am y lloches wedi eu hanfon at Barc Cenedlaethol Eryri a disgwyllir cael gwybod a oes angen caniatâd cynllunio ffurfiol neu beidio.

9. Materion Cynllunio:

- i. Cymeradwywyd cais NP5/53/LB229C sef caniatâd Adeilad Rhestredig i newid wal allanol adain gefn i ychwanegu estyniad i'r adeilad ynglwm, Bronallt, Heol yr Orsaf
- ii. Cymeradwywyd cais NP5/53/565 sef estyniad i 5 Cae Croes, Y Bala
- iii. Cymeradwywyd cais am drwydded bwrdd yng Nghaffi'r Cyfnod, 48 Y Stryd Fawr, Y Bala

10. Materion Cyllid: Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol. Cytunwyd i wneud y cyfraniad arferol tuag at Gronfa'r Maer.

Ystyriwyd Cyfrifon y flwyddyn 2017-18. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2017-18 i sylw'r Archwilydd Mewnol, gan gynnwys Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer Cyngor Tref Y Bala a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/18.

11. Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr a oedd yn cynnwys gwaith yn y cymunedau yn ogystal â materion yn ymwneud a Chanolfan Henblas.

12. Gohebiaeth:

- i. Nodwyd gwybodaeth am Gynhadledd Un Llais
- ii. Nodwyd gwybodaeth am "Bash mawr Y Bala"
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer sefydlu corff llywodraethu cysgodol i'r ysgol gydol oes newydd, a'r trefniadau pontio cyn yr agoriad swyddogol ar 1/9/19.
- iv. Nodwyd cynnwys llythyr Cymdeithas yr Iaith am ddyfodol y Clybiau Ieuencid.
- v. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd.
- vi. Trafodwyd cynllun "Drws agored" y Llywodraeth fel modd o gasglu barn ar rôl cynghorau cymuned a thref. Cytunwyd nad oedd yn gyfleus i weithredu'n wirfoddol ar y dyddiad arbennig a gynigiwyd.
- vii. Derbyniwyd gwybodaeth nad oes angen Swyddog Gwarchod Data ar gynghorau cymuned a thref. Mae'n debygol y bydd ffi i'w dalu ond nid yw'r manylion wedi dod i law.

13. Asedau'r Cyngor: Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig Carol Rowlands ar eu cyflwr a diolchwyd iddi am wirfoddoli i archwilio'r asedau'n fisol. Cytinwyd i gysylltu gyda'r Warden Lleol am y meinciau sydd i'w gosod ar hyd lwybr glan yr afon.

14. Materion Lleol y Cynghorwyr Tref: Cytunwyd i gael barn y Cynghorydd Dilwyn Morgan ar fesurau posibl i liniaru problemau parcio yn Y Parciau.

Mynegwyd gofid am wrych wedi or-dyfu dros balmant ac am ardaloedd blêr yn y dre, a chytunwyd i anfon at swyddogion gorfodaeth.

Amser gorffen: 9.15pm